

YMDDIRIEDOLAETH ADDYSGOL JOHN BENNETT PARRY

Meini prawf derbyn y wobr

- Wedi cwblhau Addysg Statudol (h.y. Blwyddyn 11) 2006 ymlaen.
- Wedi cwblhau 2 flynedd o Addysg Lefel 3 (h.y. Lefel Uwch neu gyfwerth) yn Ysgol Glan Clwyd neu Ysgol Uwchradd Dinbych. Derbynnir ceisiadau hefyd oddi wrth disgyblion a fu'n mynychu sefydliadau lleol eraill (h.y. Gogledd Cymru) sydd yn cael eu ariannu gan y Wladwriaeth, tra'n byw o fewn ffiniau'r Cynghorau Cymunedol canlynol:-

Sir Ddinbych

Cefn Meiriadog

Trefnant

Henllan

Dinbych

Nantglyn

Llanrhaeadr-yng Nghinmeirch

Conwy

Llanefydd

Llansannan

Llanfairtalhaearn

- Yn derbyn lie mewn Prifysgol neu Goleg Addysg Uwch er mwyn astudio cwrs Gradd, HND neu gwrs Sylfaenol fydd yn arwain at gwrs Gradd neu HND.
- Rhoddir y wobr am 4 mlynedd fan bellaf o'r amser y cychwynwyd y cwrs-er, gall hwn newid yn ol ewyllys yr Ymddiriedolwyr mewn achosion eithriadol.
- Rhoddir swm ychwanegol i'r wobr sylfaenol i'r disgyblion hynny a oedd, yn ystod y ddwy flynedd olaf yn yr Ysgol, yn derbyn credyd teuluol.
- Adolygir maint y wobr a'r swm ychwanegol yn flynyddol gan yr Ymddiriedolwyr.



1. Amcan

Amcan yr Ymddiriedolaeth yw " i gynnig cymorthdal yn flynyddol i fyfyrwyr Addysg Bellach ac yn enwedig y rhai hynny sydd o gefndiroedd llai breintiedig".

2. Cefndir

Ganwyd John Parry i deulu o ffermwyr mynydd yn Nantglyn, ger Dinbych. Mynychodd Ysgol Ramadeg Dinbych tan 1966 pan dderbyniodd le ym Mhrifysgol Sheffield i ddarllen Gwleidyddiaeth ac Economeg. Graddiodd gyda gradd 2.1. Yna sicrhodd le yng Ngholeg Brazenose, Rhydychen i ddarllen gradd Meistr mewn Astudiaethau Busnes Amaethyddol.

Wedi derbyn ei radd Meistr fe benderfynodd ddod adre i weithio ar, ac wedyn, i reoli'r fferm deuluol. Nid anghofiodd John yr aberth a wnaeth ei deulu er mwyn ei alluogi i fanteisio ar y profiad a gafodd o fynd i'r Brifysgol. Ymhen amser, gan nad oedd ganddo deulu agos, fe benderfynodd ei fod am helpu pobl ifainc trwy eu cefnogi i ymestyn eu hunain ac i gyflawni eu potensial.

Bu farw John yn ystod Hydref 2006 gan adael rhodd sylweddol yn ei ewylllys er mwyn creu Ymddiriedolaeth sy'n cynnig cymorthdal yn flynyddol i fyfyrwyr sydd am ddilyn cyrsiau Addysg Bellach.

3. Yr Ymddiriedolaeth

Cofrestrwyd yr Ymddiriedolaeth gyda'r Comisiwn Elusennau (Rhif Elusen 1123459) gan Ysgutorion yr Ewyllys.

4. Gwobrau

Mae'r grant a gynigir ar hyn o bryd yn werth £500 y flwyddyn – i'w dalu ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Hefyd, mae taliad ychwanegol o £250 ar gael i'r rhai cymwys hynny sydd yn derbyn credyd teuluol.